Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru

www.cymru.gov.uk

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2010

Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru

Cynulleidfa

Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru, penaethiaid ysgolion uwchradd sydd â chweched dosbarth, awdurdodau lleol, Rhwydweithiau 14–19, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, y gwasanaeth ieuenctid statudol a gwirfoddol, Estyn, sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, sefydliadau a fforymau cyflogwyr, undebau llafur, Cynghorau Sgiliau Sector, Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, gwasanaethau carchardai a phrawf, timau troseddau ieuenctid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae'n un o gyfres o bapurau thematig sy'n rhoi sylw i faterion a nodir yn Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

Rhagor o wybodaeth

Helen Scaife
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ffynon Las
The Orchards
Ilex Close
Llanisien
Caerdydd
CF14 5EZ
Tel: 029 2092 6053
e-bost: FEPolicy@cymru.gsi.gov.uk

Dogfennau cysylltiedig

Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru (2007)
Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru (2008)
Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2008)
Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2007)

ISBN 978 0 7504 5836 8
© Hawlfraint y Goron 2010
E1160910

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
Beth yw Dysgu Oedolion yn y Gymuned?	3
Manteision Dysgu Oedolion yn y Gymuned	4
Y weledigaeth ar gyfer Dysgu Oedolion a'r Gymuned	5
Cysylltiadau â pholisïau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru	9
Casgliad	10
Datblygu ACL	11

Rhagair y Gweinidog

Yn *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* (2007), amlinellwyd ein gweledigaeth o gymdeithas lle mae dysgu gydol oes yn beth cyffredin, a phobl Cymru'n mynd ati drwy gydol eu hoes i gaffael gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae Dysgu Oedolion yn ganolog i'r weledigaeth honno ac i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru am genedl a chymdeithas hunanhyderus, lewyrchus ac iach.

Gall Dysgu Oedolion yn y Gymuned gyfrannu at ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle, at weithgareddau datblygu cymunedol ehangach neu at agor drysau i addysg bellach ac uwch. At hynny, mae'n cynnig manteision lawn mor werthfawr i unigolion, teuluoedd a'u cymunedau, drwy agor llwybrau dysgu newydd a hybu cyfiawnder cymdeithasol, iechyd a lles.

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn werthfawr oherwydd ei botensial i gyrraedd unigolion 'yn eu milltir sgwâr', yn enwedig y rhai na fyddai fel arall yn ymwneud â dysgu. Rydym yn awyddus i ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus ar helpu'r rhai sydd wedi manteisio leiaf ar addysg yn y gorffennol neu'r rhai sydd leiaf tebygol o fanteisio yn y dyfodol, oherwydd diffyg mynediad, adnoddau neu rwystrau eraill. Credwn fod hyn yn fuddsoddiad pwysig a gwerthfawr mewn unigolion a chymunedau.

Gwneir y datganiad polisi hwn mewn cyfnod o newid sylweddol, a ninnau wrthi'n trawsnewid y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru mewn ymateb i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru. Rydym wrthi hefyd yn adolygu'r gwariant ar addysg ledled Cymru i nodi cyfleoedd i ailgyfeirio cyllid at wasanaethau rheng flaen. Rydym yn cydnabod y bydd strwythurau a systemau yn parhau i ddatblygu drwy gydol y broses newid, ond ni fydd yr amgylchedd deinamig hwn yn effeithio ar ein blaenoriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Mae'r datganiad polisi hwn yn amlinellu ein rhaglen ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac yn cydnabod ei bwysigrwydd yn y sector addysg ôl-16, a'i gyfraniad at ystod o flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n egluro ein nodau strategol ac yn nodi camau allweddol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cyflwyniad

Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi'r ffordd ymlaen o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned tan 2015. Rydym wedi ystyried yr adborth o'r ymarfer ymgynghori ac wedi rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfrifoldeb i ddarparwyr a phartneriaethau gyflwyno darpariaeth sy'n bodloni gofynion lleol.

Mae'r datganiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a ariennir drwy'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS). Er hynny, mae ein gweledigaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y bôn yn cwmpasu mwy na'r dysgu a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Cydnabyddwn fod y ddarpariaeth yn helaeth ac amrywiol, ac yn cael ei darparu gan lawer o gyrff gan gynnwys y trydydd sector, llyfrgelloedd, orielau celf, Prifysgol y Drydedd Oes a phrosiectau datblygu cymunedol lleol, heb arian cyhoeddus ar brydiau.

Felly, mae'r datganiad hwn hefyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r ystod eang o ddarpariaethau sydd ar gael. Mae'n ceisio cryfhau'r cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid yn y sector dysgu ôl-16 a mentrau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a gynhelir drwy ddysgu oedolion. Bydd y dull gweithredu symlach hwn yn manteisio'n llawn ar synergeddau gan ychwanegu gwerth mewn cyd-ddarpariaethau, yn osgoi dyblygu diangen a chystadlu ofer ac yn cynyddu'r llwybrau dilyniant i ddysgu a sgiliau lefel uwch. Bydd hefyd yn sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

Beth yw Dysgu Oedolion yn y Gymuned?

Mae ACL yn cwmpasu ystod eang o gyfleoedd dysgu, ac mae'n anodd ei ddiffinio'n gryno. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes gennym ddiffiniad o ACL y gall pawb gytuno arno wedi arwain at anghysonderau yn y ddarpariaeth ledled Cymru ac at anallu i ddynodi a gwerthuso'r maes cymhleth ond pwysig hwn o ddysgu gydol oes. Felly, wedi ystyried sylwadau darparwyr dysgu a rhanddeiliaid eraill, diffiniwn ACL fel a ganlyn:

> *Cyfleoedd dysgu hyblyg i oedolion, a ddarperir mewn lleoliadau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol.*

- Mae ACL yn **hyblyg** am ei fod yn golygu darparu cyrsiau byr a rhan-amser yn bennaf ar adegau gwahanol ac mewn amrywiaeth o leoliadau.
- Mae ACL wedi'i **anelu'n bennaf at oedolion dros 25 oed**, ond gall oedolion iau sy'n ddysgwyr gymryd rhan hefyd. Mae ACL yn llinyn pwysig yn y rhaglen O Fudd-dâl i Waith am ei fod yn gyfle pwysig i'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i gymryd rhan mewn dysgu.

- Mae'r term 'lleoliad cymunedol' yn gynhwysfawr, ond mae **lleoliad y ddarpariaeth** yn nodwedd ddiffiniol bwysig o ACL. Mae lleoliadau nas sefydlwyd o reidrwydd ar gyfer dysgu oedolion, megis ysgolion, neuaddau cymunedol a llyfrgelloedd ayyb., yn cynnig hyblygrwydd ac maent yn fwy hygyrch i grwpiau na fyddant yn draddodiadol yn ymwneud â dysgu. Mewn Addysg Bellach, cyflwynir y ddarpariaeth ACL mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys canolfannau allgymorth penodol y colegau.
- Er ei fod yn cyfrannu'n fawr at yr agenda sgiliau, mae'r cyfeiriad at anghenion lleol yn dangos nad prif bwrpas ACL yw mynd i'r afael â phrinderau sgiliau cenedlaethol mewn meysydd galwedigaethol a nodwyd yn ganolog gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ei nod yw darparu **ystod deilwredig o gyfleoedd dysgu sydd wedi'i phennu gan ddarparwyr lleol i fodloni gofynion lleol**, ac y dylid, yn achos rhaglenni a ariennir yn gyhoeddus, ei thargedu at y rhai mwyaf anghenus.

Manteision Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae proffil demograffig ac economaidd Cymru yn newid ac mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio. Yn ogystal â'r anghenion addysg a hyfforddiant llawnamser, mae angen ystod o ddarpariaethau hyblyg a rhan-amser ar fwy a mwy o unigolion i fagu hyder a meithrin sgiliau cymdeithasol, ac i wella'u hiechyd, eu lles a'u siawns o gael swydd. Mae ACL yn chwarae rhan bwysig yn y ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael yn y sector ôl-16. Gall helpu unigolion i ailafael mewn dysgu ac arwain at gyfleoedd i barhau i ddysgu a/neu i gael swydd. Daw ymyrraeth ar y lefel hon yn fwyfwy pwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol wrth i fwy o oedolion chwilio am ffyrdd o ennill neu o wella'u sgiliau a'u dysgu mewn amgylchedd cynhaliol yn eu cymuned.

Mae ACL yn cyfrannu at gyflawni nifer o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ceisio cryfhau a gwella adnoddau cymdeithasol cymunedau lleol. Yn ogystal â'r agenda economaidd, mae'n effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles, adfywio cymunedol, dileu tlodi plant a'r strategaeth pobl hŷn.

Fel y nodwyd gan NIACE Dysgu Cymru, mae mwy a mwy o dystiolaeth empeiraidd i ddangos gwerth cyhoeddus buddsoddi mewn dysgu. Dengys yr ymchwil fod oedolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn fwy tebygol o wneud ymarfer corff, yn fwy tebygol o roi'r gorau i ysmygu, yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau sgrinio iechyd ac yn fwy tebygol o gwtogi ar alcohol. Mae dysgu'n cynyddu hyder a hunan-werth ac yn hybu lles cyffredinol ac iechyd meddwl. Mae'r rhai sy'n dysgu pan fyddant yn oedolion yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol, yn fwy tebygol o fod yn hyblyg eu hagweddau ac yn llai tebygol o fod yn anoddefgar tuag at safbwyntiau pobl eraill neu o droseddu[1].

[1] O Ganolfan dros Ymchwil i Fanteision Ehangach Dysgu, Yr Athrofa Addysg, Prifysgol Llundain

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cydnabod bod tystiolaeth feintiol gref sy'n dangos bod dysgu yn hwyrach mewn bywyd yn atgyfnerthu annibyniaeth pobl a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain, ac yn gallu arafu datblygiad demensia, gan ohirio'r angen am ofal preswyl drud. Mae dysgu yn hwyrach mewn bywyd yn rhan allweddol o *Strategaeth Pobl Hŷn* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n helpu pobl i heneiddio'n weithredol, a gall gyfrannu at ddarparu gofal effeithiol ac estyn bywydau gwaith y rhai sy'n dymuno parhau i weithio.

Mae dysgu oedolion yn chwarae rhan bwysig hefyd yn natblygiad addysgol teuluoedd, plant a phobl ifanc. Mae llawer o ymchwil yn dangos bod addysg rhieni a'u hymwneud â dysgu yn arwain at agweddau cadarnhaol a chefnogaeth deuluol i ddysgu, a bod hyn yn dylanwadu'n fawr ar ddatblygiad a chyfleoedd bywyd eu plant. Byddwn yn meithrin cysylltiadau â phrosiectau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ymwneud â dysgu rhwng y cenedlaethau, megis y prosiect Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau ACL i gefnogi gofynion dysgu'r rhai mwyaf anghenus.

Y weledigaeth ar gyfer Dysgu Oedolion a'r Gymuned

Dyma'n gweledigaeth ar gyfer ACL yn y dyfodol:

- mwy yn cymryd rhan o blith y rhai sydd wedi elwa leiaf ar addysg yn y gorffennol neu sydd fwyaf tebygol o beidio ag elwa yn y dyfodol;
- ansawdd y profiad dysgu yn uwch a mwy o gyfleoedd i barhau i ddysgu neu i gael swydd; a
- mwy o gydlyniaeth yn natur a phatrymau'r ddarpariaeth ar draws yr ystod eang o ddarparwyr.

Mwy yn cymryd rhan

Rydym yn awyddus i gadw'r ystod eang o gyfleoedd dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd drwy ACL. Fodd bynnag, byddwn yn targedu ein hadnoddau at y rhai mwyaf anghenus - gan gynnwys y rhai na allant ariannu eu dysgu eu hunain. I gyflawni hyn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyflwyno meini prawf cymhwyso ariannol newydd ar gyfer ACL. Oherwydd goblygiadau hyn i ddarparwyr, byddwn yn eu cyflwyno fesul cam.

Cydnabyddwn hefyd yr angen i ACL barhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu, i ddenu unigolion nad oedd yn gallu, neu yn fodlon, ymwneud â chwricwlwm mwy traddodiadol mewn addysg orfodol. Felly, bydd y meini prawf cymhwyso yn canolbwyntio llai ar y cwricwlwm a mwy ar nodweddion y dysgwr. Rhagwelwn y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr bennu'r ddarpariaeth

fwyaf priodol i fynd i'r afael ag anghenion grwpiau lleol â blaenoriaeth. Dymunwn, er hynny, weld pwyslais ar raglenni sgiliau sylfaenol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) - sy'n gymwys i'w hariannu, waeth beth fo statws yr unigolyn.

Felly, dylai o leiaf 80 y cant o gyfanswm y cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach[2] ar gyfer darpariaeth ACL gael ei neilltuo i flaenoriaethu'r grwpiau canlynol o ddysgwyr:

- rhai sy'n 16 oed a throsodd ac sydd eisiau mynychu rhaglen ACL sgiliau sylfaenol a/neu ESOL, gan gynnwys cyrsiau sgiliau sylfaenol cyd-destunol a dinasyddiaeth;
- y rhai nad ydynt ar hyn o bryd mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ac sy'n cael budd-daliadau neu gymorth gan y wladwriaeth (ac eithrio pensiwn ymddeol y wladwriaeth); neu
- y rhai sy'n 50 oed a throsodd nad ydynt mewn cyflogaeth lawnamser.

Fodd bynnag, deallwn fod yn rhaid cael dosbarthiadau sy'n hyfyw o ran maint i ddarparu rhaglenni ACL ar gyfer y grwpiau sydd i'w blaenoriaethu. Yn sgîl y meini prawf newydd, bydd disgwyl i ddarparwyr godi ffi ar y rhai nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau hyn. Byddwn yn cynorthwyo'r sector drwy godi ymwybyddiaeth o strwythurau ffïoedd newydd drwy ymgyrchoedd cenedlaethol i annog cyflogwyr a'r rhai sy'n gallu talu ffïoedd i gynyddu eu buddsoddiad mewn dysgu.

Cydnabyddwn fod angen cyflwyno'r meini prawf cymhwyso newydd hyn dros gyfnod rhesymol a byddwn yn ceisio'u rhoi ar waith yn llawn erbyn Awst 2015. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i ddarparwyr ddechrau rhoi'r meini prawf hyn ar waith cyn gynted â phosibl, a byddwn yn cynorthwyo'r sector drwy feincnodi, monitro blynyddol ac adborth.

Cydnabyddwn fod costau ychwanegol i gefnogi cyfleoedd dysgu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector ôl-16, ac y gallai hynny, oherwydd y cyfyngiadau cyllidebol cyfredol, olygu bod llai o ddysgwyr yn gyffredinol yn cael cymorth drwy arian cyhoeddus yn y sector ACL. Fodd bynnag, credwn fod y costau hyn yn fuddsoddiad gwerthfawr ac yn gyfraniad pwysig at gyflawni'r ymrwymiadau cyfiawnder cymdeithasol a amlinellwyd gennym yn *Cymru'n Un*.

Yn amodol ar unrhyw bolisi ffïoedd a lunnir yn y dyfodol, bydd hyblygrwydd i ddarparwyr ddefnyddio'r 20 y cant sy'n weddill o'r arian a ddyrennir ar gyfer darpariaeth arloesol sy'n seiliedig ar anghenion a ddynodir yn lleol, o ran y grwpiau a dargedir, a'r cwricwlwm a gynigir. Byddem, er hynny, yn annog darparwyr i ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn i greu rhaglenni arloesol a fydd yn ailennyn

[2] Byddwn yn cydweithio â sefydliadau AB i nodi'r elfen o'u dyraniad cyllid sy'n ymwneud ag ACL

diddordeb oedolion nad ydynt wedi ymwneud ag addysg am beth amser. Bydd hyn yn eu galluogi i ddarparu dysgu anachrededig mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys cyrsiau blasu a chyrsiau byr i ailennyn diddordeb dysgwyr heb effeithio'n ormodol ar y cyllid. Bydd hefyd yn galluogi darparwyr i ymateb yn gyflym i anghenion a ddynodir yn lleol.

I ddynodi dysgwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth ACL, mae Cod Cofnodi newydd 30 - Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym maes LP17 - Math o raglen ddysgu, wedi'i gyflwyno ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11. (Ceir canllawiau manwl yn y Llawlyfr LLWR ar gyfer Darparwyr Dysgu 2010/11, tudalen 77). Cydnabyddwn y gall cofnodi data ar gyfer cyrsiau byrdymor neu gyrsiau na redant ond am rai oriau bob wythnos fod yn broses feichus ac y gall hyn fod yn rhwystr i ymgysylltu â'r grwpiau â blaenoriaeth a restrir uchod. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cofnodi'r data hyn i gael tystiolaeth i gyfiawnhau camau gweithredu a phrawf o ddeilliannau. Rydym yn ymchwilio ar hyn o bryd i ffyrdd llai beichus o gasglu data ac rydym wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth lle y bo'n bosibl.

Gwella ansawdd a dilyniant

Gwyddom fod ansawdd y ddarpariaeth ACL yn aml yn uchel iawn, fel y dengys arolygiadau Estyn. Er ein bod yn derbyn y bydd darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff yn anodd oherwydd y cyfyngiadau ariannol, disgwyliwn weld pwyslais parhaus ar wella ansawdd y ddarpariaeth, drwy arloesi a chydweithio.

Yn unol â'n Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd rhaid i ddarparwyr gynnal hunanasesiadau rheolaidd i'w helpu i gynllunio ar gyfer gwella. Wrth ddatblygu ein canllawiau hunanasesu gwnaethom gynnwys gofynion penodol i ategu polisi APADGOS, a rhoddwyd mwy o bwyslais ar bartneriaethau a chydweithredu. Mae'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd hefyd yn rhoi pwyslais ar ymatebolrwydd i ddysgwyr, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau manwl i helpu darparwyr i ddatblygu a gwerthuso'r broses o gynnwys dysgwyr - egwyddor sy'n ganolog i ACL. Mae'r ddwy flaenoriaeth hyn yn adlewyrchu ffocws Fframwaith Arolygu Cyffredin 2010 Estyn (www.estyn.gov.uk).

Ar y cyd â NIACE Dysgu Cymru a darparwyr, byddwn yn datblygu mesurau perfformiad cyson ar gyfer rhaglenni ACL achrededig, gan gynnwys dysgwyr yn cwblhau rhaglenni a chyrhaeddiad y dysgwyr. Bydd y rhain yn sylfaen i ddata meincnodi ar y lefel gyrsiol, y bydd darparwyr ACL yn gallu eu defnyddio i fesur eu perfformiad ac i osod targedau ar gyfer gwella. I gychwyn, byddwn yn cyhoeddi meincnodau'r lefel gyrsiol ar gyfer 2009/10; yn y dyfodol, byddwn yn ystyried ffyrdd o estyn hyn i fesur y credydau a enillwyd gan ddysgwyr, yn unol â'r dull sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymraeg i Oedolion.

Rydym hefyd yn disgwyl gweld tystiolaeth o gynnydd yn y dilyniant oddi mewn i ACL ac o ACL i raglenni eraill yn y sector ôl-16 ehangach (gan gynnwys Addysg Uwch). Gan adeiladu ar ddatblygiadau'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (y rhaglen Rheoli Gwybodaeth ar draws Partneriaid gynt), byddwn yn sicrhau bod darparwyr yn cael data o ansawdd da i alluogi'r sector i olrhain dilyniant yn well.

Rydym hefyd yn awyddus i wneud cynnydd tuag at achredu pob darpariaeth ACL a ariennir gan APADGOS. Byddwn yn annog y sector i ystyried datblygiadau yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), gan gynnwys Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd (QALL) sy'n un o bileri'r fframwaith.

Credwn y bydd QALL yn gwella profiadau'r dysgwyr, ac yn cydnabod eu cyflawniadau'n well - heb golli hyblygrwydd nac ehangder y dewis. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r sector i sicrhau hyn ac rydym eisoes wedi cefnogi prosiect, a arweiniwyd gan NIACE Dysgu Cymru, i roi FfCChC ar waith yn y sector ACL. Byddwn hefyd yn adeiladu ar egwyddorion RARPA (Cydnabod Cyflawniad a Chofnodi Cynnydd) i helpu darparwyr i fesur deilliannau dysgu 'meddal', megis cynnydd mewn hyder a chymhelliad, ac i werthuso'r deilliannau hyn yn eu hunanasesiadau.

Drwy'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd, byddwn yn cefnogi mentrau gwella ansawdd a'r broses o ledaenu'r arferion gorau. Mae'r prosiectau allweddol ar gyfer 2010-11 yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer aseswyr cymheiriaid, sydd i'w ddarparu ar ein rhan gan Golegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a NIACE Dysgu Cymru, i gynyddu gallu staff y darparwyr i adolygu cymheiriaid ac i gynnal arolygiadau mewnol gan ddefnyddio Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Rydym hefyd yn bwriadu cynnig cylch arall o'r Gronfa Gwella Ansawdd, sy'n caniatáu i ddarparwyr gyflwyno cais i gyflawni prosiectau bach yn ymwneud â gwella ansawdd ac ymchwil weithredu, a'u defnyddio i ledaenu arferion da ac i wella ansawdd ar draws y sector.

Mwy o gydlyniaeth yn y ddarpariaeth

Rydym wedi datgan bod angen cydbwysedd rhwng darpariaeth a ariennir gan APADGOS a chan y dysgwr, cyflogwyr ac eraill. Disgwyliwn weld y ddarpariaeth eang a gynigir ledled Cymru yn parhau.

Disgwyliwn i ddarparwyr barhau i gydweithio i sicrhau bod ACL yn cael ei gyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r partneriaethau ACL sydd wedi'u sefydlu, ac sy'n cynnwys Addysg Bellach, Addysg Uwch, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a rhanddeiliaid eraill, yn allweddol i sicrhau bod ACL yn cyfrannu at y rhaglen Drawsnewid ehangach. Disgwyliwn i bob darparwr yn y partneriaethau wneud yr hyn a allant i leihau dyblygu ymdrechion ac i wella'r cyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn unol â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg), gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

Mae'r cyhoeddiad *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn nodi y dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fabwysiadu ffordd newydd o ehangu mynediad at addysg uwch. Mae Strategaeth Gorfforaethol CCAUC ar gyfer 2010-11 hyd at 2012-13 yn cadarnhau ei ymrwymiad i ehangu mynediad at 'degwch, cyfle a llwyddiant mewn addysg uwch'. I sicrhau hyn bydd CCAUC a'r sector addysg uwch yn cydweithio ag ystod eang o ddarparwyr addysg i gefnogi dwy flaenoriaeth *Er Mwyn Ein Dyfodol*: cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol a chynnal economi ffyniannus. Bydd parhau i gynnwys y sector addysg uwch mewn partneriaethau ACL yn help mawr i ddatblygu, hybu a chryfhau llwybrau dilyniant i oedolion i mewn i ddysgu a sgiliau ar lefel bellach ac uwch.

Disgwyliwn hefyd i bartneriaethau ACL edrych yn ofalus ar gyn-drefniadau contractio eu hardaloedd a sicrhau gwerth am arian i'r dysgwr a'r trethdalwr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau mai ar ddarparu dysgu y bydd y cyllid yn canolbwyntio, a bod biwrocratiaeth ddiangen a chostau yn cael eu lleihau. Dymunwn weld cysylltiadau amlycach rhwng partneriaethau ACL a darpariaethau dysgu oedolion eraill nas ariennir gan APADGOS, ee llyfrgelloedd, amgueddfeydd ayyb., i ddarparu llwybrau dilyniant mwy effeithiol ar gyfer dysgwyr.

Mae cydgynllunio strategol yn bwysig. Fodd bynnag, cydnabyddwn yr angen i gwtogi cymaint â phosibl ar gostau gweinyddu cyllid ACL - i sicrhau cynifer o adnoddau â phosibl ar gyfer y ddarpariaeth reng flaen. Felly, ni fyddwn yn nodi manylion y trefniadau cynllunio, ac ni fyddwn yn gofyn i bartneriaethau ACL gyflwyno cynlluniau i'w cymeradwyo gan APADGOS.

Bydd y partneriaethau ACL yn nodi cyfeiriad strategol clir ar gyfer y bartneriaeth yn eu cynlluniau datblygu strategol a'u cynlluniau datblygu ansawdd ar gyfer ACL; bydd eu Hadroddiad Hunanasesu (SAR) yn asesu eu perfformiad yn erbyn hyn yn flynyddol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n defnyddio'r SAR yn brif offeryn monitro ochr yn ochr â data perfformiad i fonitro cynnydd o ran diwallu anghenion grwpiau â blaenoriaeth. Bydd y gofynion adrodd symlach hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb i ddarparwyr a phartneriaethau am gynllunio a chyflawni.

Cysylltiadau â pholisïau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae ACL yn bwysig iawn i wireddu'r weledigaeth o Gymru a gyflwynir yn *Cymru'n Un*. Mae angen ymagwedd fwy cydgysylltiedig a chyfannol at fentrau polisi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i atgyfnerthu datblygiadau yn y sector, i wella cydweithredu, i wella dilyniant ac i gynnal safonau uchel y ddarpariaeth. Bydd gwell cydweithredu oddi mewn i Adrannau a rhyngddynt yn sicrhau bod polisïau'n cael eu rhoi ar waith yn well a bod y rhaglen flaengar i Gymru yn cael ei chyflawni mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol.

Byddwn yn cydweithio'n agosach ag adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru, â Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac â Llywodraeth y DU i integreiddio datblygu a chyflwyno darpariaeth ACL.

Byddwn yn meithrin gwell cysylltiadau strategol â:

Cymorth i Deuluoedd

Byddwn yn parhau i wella'r cysylltiadau â'r ystod eang o bolisïau a rhaglenni sydd wedi'u creu i helpu teuluoedd â phroblemau cymhleth, drwy ddarparu ymyraethau cynnar - gan gynnwys gofal plant, rhaglenni rhianta, canolfannau plant integredig a gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd - i roi gwell siawns iddynt mewn bywyd. Mae hyn hefyd yn cynnwys y prosiect newydd, Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf, a fydd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu ffyrdd - sy'n integredig, yn ataliol ac yn cynnwys ymyrraeth gynnar - o helpu teuluoedd allan o dlodi.

Cymunedau yn Gyntaf

Byddwn yn parhau i wella'n cysylltiadau â'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a sefydlwyd i fynd i'r afael â thlodi ac i roi cyfleoedd i bobl leol chwarae rhan weithredol yn y broses o lunio dyfodol eu cymuned. Cydnabyddwn bwysigrwydd ymgysylltu â'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig partneriaethau lleol, i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n oedolion yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Byddwn yn gweithio drwy 'Gyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth' Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r DWP i ddatblygu gwell dealltwriaeth o sut y gallwn gydweithio i sicrhau cynifer o fanteision â phosibl i ddysgwyr Cymru.

Casgliad

Rydym yn hyderus y bydd y dull hwn yn arwain at ganlyniadau llwyddiannus, ond byddwn yn ymyrryd ar ran y rhai mwyaf anghenus lle y bydd y cynnydd a wneir yn annigonol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ymlaen at gydweithio â'r ystod eang o ddarparwyr ACL i ddatblygu'r manylion sydd eu hangen i roi'r weledigaeth ar waith yn llawn. Er ein bod yn wynebu mwy o gyfyngiadau ar arian cyhoeddus nag a ragwelwyd adeg yr ymgynghoriad cyntaf ynghylch ein cynlluniau ar gyfer ACL, rydym yn hyderus y gallwn, drwy gydweithio, wella'r cyfleoedd i'r rhai a all elwa fwyaf ar y maes darparu pwysig a thrawsnewidiol hwn.

Ni all llywodraeth gyflawni'r newidiadau angenrheidiol ar ei phen ei hun - rhaid i bob partner, ym mhob sector, chwarae rhan lawn. Dymunwn greu diwylliant sy'n gweld gwerth ACL, lle y caiff unigolion gymorth i reoli eu dysgu eu hunain, a lle y caiff cyfleoedd dysgu eu datblygu'n gydlynus ac yn gydweithredol i alluogi dysgwyr i gyflawni eu holl botensial.

Datblygu ACL

Bydd angen i'r canlynol ddigwydd i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer ACL:

- bydd partneriaethau ACL yn nodi eu cyfeiriad strategol clir ac yn cydweithio i gydymffurfio â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ac i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion lleol;
- bydd partneriaethau ACL yn cydweithio ar draws y sector ACL ac â darparwyr eraill nas ariennir gan APADGOS i ddileu dyblygu ac i wella cyfleoedd dysgu a llwybrau dilyniant;
- dylid targedu darpariaeth ACL a ariennir gan APADGOS i ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer y grwpiau â blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; a
- bydd yr holl ddarparwyr ACL a ariennir gan APADGOS o 2010/11 yn dynodi dysgwyr sy'n ymwneud ag ACL ar yr LLWR drwy ddefnyddio'r cod cofnodi newydd 30 - Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym maes LP17 - Math o raglen ddysgu.

Bydd angen i APADGOS:

- weithio'n gydweithredol oddi mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru i 'gysylltu' mentrau polisi;
- cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth i sicrhau cynifer o fanteision â phosibl ar gyfer dysgwyr Cymru;
- cyflwyno meini prawf cymhwyso ariannol newydd yn raddol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus;
- adolygu'r trefniadau cynllunio i ysgafnhau'r baich;
- datblygu mesurau perfformiad cyson a data meincnodi i helpu darparwyr ACL i werthuso deilliannau dysgwyr;
- adeiladu ar egwyddorion RARPA i helpu i fesur deilliannau 'meddal' ar gyfer dysgu anachrededig fel rhagflaenydd i'r piler QALL o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;
- cydweithio â darparwyr ACL a ariennir ac nas ariennir gan APADGOS i barhau i ddatblygu'r piler QALL o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;

- cyflwyno hyblygrwydd i 20 y cant o'r cwantwm cyffredinol a ddynodir yn ACL. Bydd darparwyr Awdurdodau Lleol yn cael yr hyblygrwydd hwn yn 2011-12. Caiff ei estyn i ddarparwyr Addysg Bellach pan fydd modd dynodi'r cwantwm ACL;
- cefnogi mentrau gwella ansawdd a'r broses o ledaenu'r arferion gorau;
- nodi cyfleoedd i leihau baich biwrocrataidd y gwaith o gasglu data; a
- cydweithio â CCAUC i sicrhau bod polisïau a blaenoriaethau ehangu mynediad addysg uwch yn cyd-fynd â datblygiadau ACL ac yn cyfrannu'n llawn atynt. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio'n agosach i sicrhau bod y llwybrau dilyniant o ACL i addysg uwch a thrwyddi yn cael eu gwella a bod mwy o fyfyrwyr yn symud o ddarpariaeth ACL i gyfleoedd dysgu a sgiliau lefel uwch.